# Asbirin Mewn Beichiogrwydd

## Pam ydw i wedi fy argymell i gael asbirin?

Fe'ch cynghorwyd i gymryd aspirin yn ystod eich beichiogrwydd oherwydd bod gennych risg o ddatblygu problemau brychol. Gall y problemau hyn cynnwys cyneclampsia, baban yn fod yn llai na'r disgwyl a rhoi genedigaeth yn gynnar. Mae asbirin yn helpu gyda datblygiad y brych.

## Pwy na ddylai cymryd asbirin?

Na ddylech chi gymryd asbirin os oes gennych chi unrhyw un o'r cyflyrau canlynol:

- Alergedd i Asbirin
- Asthma sy'n cael ei gwaethygu gan asbirin neu unrhyw feddyginiaethau gwrthlidiol fel Ibuprofen
- Wlserau'r stumog
- Lefelau isel o blatennau

Os nad ydych yn siŵr os ddylech chi gymryd asbirin, trafodwch gyda'ch meddyg neu fydwraig cyn gynted â phosib.

## Pryd y dylai gymryd asbirin?

Mae'n bwysig dechrau cymryd  asbirin rhwng 12 a 16 wythnos o feichiogiad. Dyma pryd mae'r brych yn dechrau datblygu; Gall asbirin helpu i wella'r datblygiad hwn. Fe'ch cynghorir i gymryd 150mg bob dydd tan ddiwedd eich beichiogrwydd (os oes gennych chi dabledi 75mg, mae angen i chi gymryd 2 dabled).

Dylech gymryd yr asbirin nes ddiwedd eich beichiogrwydd.

## Oes yna unrhyw sgil effeithiau?

Gall asbirin achosi diffyg traul gymedrol. Mae hyn yn gyffredin, yn effeithio 1 person mewn 100. Mae cymryd asbirin gyda bwyd yn llai tebygol o achosi diffyg traul. Peidiwch â chymryd meddyginiaeth diffyg traul o fewn dwy awr cyn neu ar ôl cymryd asbirin. Nad yw'r dos hwn o asbirin yn cynyddu eich risg o waedu.

## Ydy asbirin yn effeithio fy mabi?

Nid yw'n wybodus bod dos isel o asbirin yn niweidiol i'ch babi.

## A fydd asbirin yn atal ceuladau gwaed?

Gan fod y dos asbirin yn isel, ni fydd yn helpu lleihau risg o geuladau gwaed yn eich coesau neu ysgyfaint.

## Sut ydw i'n cael yr asbirin?

Byddwch yn cael cyflenwad 4 wythnos gan y bydwragedd yn y clinig cynenedigol pan fyddwch yn mynychu ar gyfer eich sgan.

Pan fydd y cyflenwad a roddir yn rhedeg yn isel, gallwch naill ai ofyn i'ch meddyg teulu ragnodi mwy neu brynu eich un eich hun. Byddwch yn ymwybodol bod aspirin hefyd ar gael fel 300mg - gwnewch yn siŵr eich bod ond yn cymryd y dos a argymhellir o 150mg.

## Beth os oes gennyf unrhyw gwestiynau neu bryderon?

Cysylltwch â'ch bydwraig, clinig cynenedigol neu feddyg teulu am unrhyw bryderon neu gwestiynau sydd gennych.

Bwrdd Golygyddol: 1112

Fersiwn: 1

Adolygwyd: Medi 2024

Dyddiad Adolygu Nesaf: Medi 2026

Awdur:  Katrina Blears - Mamolaeth